# *Polisi Cam-drin Domestig*

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r polisi:** | ***Polisi ar gyfer ymdrin yn briodol â Cham-drin Domestig*** |
| **Rhif y polisi:** | ***002/2021*** |
| **Rheoli fersiynau:** | ***Fersiwn: 10.0***<br>***Dyddiad:*** *10/11/2021*<br>***Awdur:*** *Y Ditectif Arolygydd* [redacted]<br>***Rhesymwaith:*** *Diweddaru'r diffiniad o gam-drin domestig a gweithredu Deddf Cam-drin Domestig 2021*<br>***Mae rheoli fersiynau llawn ar gael fan hyn.*** |
| **Dyddiad gweithredu:** | ***11/11/2021*** |
| **Dyddiad adolygu:** | ***10/01/2022*** |
| **Perchennog/ cyswllt:** | ***Y Ganolfan Fregusrwydd*** |
| **Cymeradwyo:** | ***Y Ganolfan Fregusrwydd Strategol*** |
| **Ymgynghori a chymeradwyo** | ***Y Ditectif Brif Arolygydd*** [redacted] |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfieithiad Saesneg:** | **Oes** | ✓ | **Nac oes** | |

# 1. Datganiad Polisi

Nod y polisi hwn yw sicrhau bod gan Heddlu Dyfed-Powys ymagwedd gyson a phroffesiynol tuag at blismona digwyddiadau Cam-drin Domestig, yn unol ag Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ar gyfer Cam-drin Domestig, sy'n nodi'r egwyddorion a'r safonau i'w dilyn. Bydd pob swyddog ac aelod staff yn deall ei gyfrifoldebau wrth ymdrin â digwyddiadau Cam-drin Domestig er mwyn lleihau'r perygl o niwed i ddioddefwyr. Bydd hyfforddiant yn canolbwyntio ar sicrhau bod pob swyddog yn deall beth yw cam-drin domestig, sut i'w adnabod, a sut i nodi ei effaith ar oedolion a phlant.

Cyflawnir hyn drwy:

- Ymateb i bob digwyddiad cam-drin domestig ac ymchwilio i'r rhain mewn modd proffesiynol, gan ystyried patrymau ymddygiad er mwyn deall digwyddiadau yn eu cyd-destun ehangach

- Adnabod y perygl o niwed rhag ymddygiad camdriniol megis stelcio, aflonyddu a mathau o gam-drin rhywiol, corfforol, emosiynol ac economaidd ac ymddygiad cymhellol rheolaethol, ac ymateb i hyn er mwyn gwarchod unrhyw un yr ystyrir ei fod mewn perygl o niwed

- Sicrhau bod troseddwyr yn cael eu dal yn atebol am eu gweithredoedd, lle bo'n briodol drwy'r system cyfiawnder troseddol, a bod troseddwyr yn cael eu rheoli'n briodol pan nad yw gweithdrefnau troseddol yn bosibl

- Gweithio gyda'n partneriaid er mwyn darparu cymorth ac amddiffyniad effeithiol i ddioddefwyr drwy gyflenwi gwasanaeth effeithiol sy'n cydnabod bod mathau o gam-drin yn medru amrywio mewn natur, dynameg ac effaith.

***Mae'n berthnasol ar gyfer y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):*** *Holl gategorïau gweithwyr Heddlu Dyfed-Powys, pa un ai a ydynt yn staff llawn amser, rhan amser, parhaol, cyfnod penodol, dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, cymdeithion a chontractwyr) neu'n staff sydd ar secondiad. Rhaid i unrhyw weithiwr sy'n cael gafael ar asedau ac eiddo'r Heddlu a'u defnyddio roi ystyriaeth ddyledus i gynnwys y polisi hwn.*

# 2. Cwmpas y Polisi

Mewn partneriaeth â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi nodi ‘Amddiffyn Pobl Fregus’, gan gynnwys atal a datrys cam-drin domestig, fel blaenoriaeth strategol. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cydnabod effaith cam-drin domestig ar fywydau dioddefwyr, plant a’n cymunedau, a bod y dioddef yn aml yn cael ei guddio o’r golwg gyda rhwystrau ychwanegol i gael mynediad at gymorth.

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol er mwyn nodi a diogelu’r rhai sydd mewn perygl, a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu’n briodol er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy’n agored i niwed. Yr ydym yn ymwybodol o bwysigrwydd ymagwedd a hysbysir gan drawma, a byddwn yn ceisio deall sut y gall nodweddion gwarchodedig effeithio ar y dioddefydd a deall a dileu rhwystrau – er enghraifft, drwy gynyddu hyder mewn grwpiau lleiafrifol sy’n ofni erledigaeth pe baent yn cysylltu ag asiantaethau gorfodi’r gyfraith.

Mae diogelu’r rhai sydd mewn perygl o gam-drin domestig yn fusnes i bawb, a bydd Heddlu Dyfed-Powys yn rhoi’r arfau i’w staff adnabod ac ymateb yn gyflym ac effeithiol er mwyn amddiffyn y rhai sydd mewn perygl o niwed. Mae hyn yn cynnwys cydnabod effaith presenoldeb yr heddlu ar blant yn y cartref.

Bydd y polisi hwn ar gael i bob aelod staff ddilyn yn ystod eu dyletswyddau, a bydd swyddogion yn derbyn canllawiau ar gyfer y gweithdrefnau lleol penodol, yn unol â’r Arferion Proffesiynol Awdurdodedig ar gam-drin domestig gan y Coleg Plismona.

Bydd egwyddorion y polisi hwn yn cael eu dilyn gan bob aelod staff wrth ymdrin â phatrwm o adrodd, ymateb i, ymchwilio ac erlyn digwyddiadau cam-drin domestig. Bydd canllawiau Heddlu Dyfed-Powys yn rhoi manylion am gyfrifoldebau pob parti sy’n gysylltiedig ag ymddygiad a rheolaeth ymchwiliadau, o’r cyswllt cyntaf gyda gweithiwr Heddlu Dyfed-Powys i’r gwerthusiad ar ôl treial sydd ar gael ar y safle mewnrwyd mewnol.

Mae diogelwch dioddefwyr yn hollbwysig. Mae methu ag adnabod cam-drin domestig ac ymdrin ag ef yn gadarn cyn cynted â phosibl yn galluogi drwgdybiedigion i barhau â’u hymddygiad. Gall hyn adael dioddefwyr yn agored i berygl sy’n dwysáu, gan gynnwys mwy o drais, ymosodiad rhywiol a dynladdiad. Gan hynny, rhaid ystyried y peryglon i ddioddefwyr yn ofalus yn yr achosion hyn. Nid

yw hyn yn ymwneud â'r perygl uniongyrchol i'r dioddefwyr gan y drwgdybiedigion yn unig, ond hefyd o ran unrhyw un sy'n gysylltiedig â dioddefwyr, megis eu plant a'u dibynyddion, aelodau o'r teulu a ffrindiau.

Byddwn yn glynu wrth Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol drwy gofnodi unrhyw droseddau'n gywir a'u nodi fel rhai 'cam-drin domestig', a sicrhau bod ymddygiadau megis aflonyddu a stelcio yn medru ffurfio rhan o'r cam-drin ond bod angen eu cofnodi fel troseddau ar wahân. Bydd achosion o dorri gorchmynion yn cael eu hystyried fel troseddau stelcio/aflonyddu newydd.

Byddwn yn sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r broses cyfiawnder troseddol a'u bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, yn unol â'u hawliau o dan y Cod Dioddefwyr. Bydd Mesurau Arbennig yn cael eu hesbonio wrth ddioddefwyr sy'n agored i niwed neu wedi'u dychrynu.

Yr ydym wedi ymrwymo i rannu gwybodaeth ag ysgolion o dan Ymgyrch Encompass fel bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n medru darparu cefnogaeth emosiynol a chymorth ymarferol er mwyn helpu disgyblion sydd wedi'u heffeithio gan Gam-drin Domestig.

Byddwn yn ystyried ac yn defnyddio'r amrediad o arfau sydd ar gael inni i reoli'r perygl a gyflwynir gan ddioddefwyr: Mechnïaeth Amodol; Hysbysiadau/Gorchmynion Amddiffyn Rhag Trais Domestig; Gorchmynion Atal; Gorchmynion Amddiffyn Rhag Stelcio; Gorchmynion Gwarchod Rhag Priodasau Dan Orfod; Gorchmynion Amddiffyn Rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod.

# 3. Pwerau a Gofynion Cyfreithiol/Polisi

Ceir diffiniad statudol Cam-drin a Domestig yn adrannau 1-3 Deddf Cam-drin Domestig 2021:

a.1 – Diffiniad Cam-drin Domestig

*Mae ymddygiad unigolyn ("A") tuag at unigolyn arall ("B") yn "gam-drin domestig" —*

*(a) os yw A a B yn 16 oed neu hŷn ac yn gysylltiedig yn bersonol â'i gilydd, a*

*(b) mae'r ymddygiad yn gamdriniol.*

*Mae'r ymddygiad yn "gamdriniol" os yw'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol —*

*(a) cam-drin corfforol neu rywiol;*

*(b) ymddygiad treisgar neu fygythiol;*

*(c) ymddygiad rheolaethol neu orfodol;*

*(ch) cam-drin economaidd (gweler isod);*

*(d) cam-drin seicolegol, emosiynol neu gam-drin arall;*

*ac nid oes ots pa un ai a yw'r ymddygiad yn cynnwys un digwyddiad neu'n gyfres o ymddygiadau.*

*Mae "cam-drin economaidd" yn golygu unrhyw ymddygiad sydd ag effaith andwyol sylweddol ar allu B i:*

*(a) gael, defnyddio neu ddal gafael ar arian neu eiddo arall, neu*

*(b) cael nwyddau neu wasanaethau.*

*- Ar gyfer dibenion y Ddeddf hon, gall ymddygiad A fod yn ymddygiad "tuag at" B er waetha'r ffaith ei fod yn cynnwys ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at rywun arall (er enghraifft, plentyn B).*

<u>a.2 – Diffiniad 'Cysylltiad Personol'</u>

*(1) Mae gan ddau berson "gysylltiad personol" â'i gilydd os oes unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:*

*(a) maen nhw'n briod, neu wedi bod yn briod, â'i gilydd;*

*(b) maen nhw'n bartneriaid sifil, neu wedi bod yn bartneriaid sifil;*

*(c) maen nhw wedi cytuno i briodi ei gilydd (hyd yn oed os yw'r cytundeb hwnnw wedi'i dorri);*

*(ch) maen nhw wedi ymrwymo i bartneriaeth sifil (hyd yn oed os yw'r cytundeb hwnnw wedi'i dorri);*

*(d) maen nhw mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd, neu wedi bod mewn perthynas o'r fath;*

*(dd) mae ganddynt berthynas rieiniol mewn perthynas â'r un plentyn, neu wedi cael perthynas o'r fath yn y gorffennol (gweler is-adran (2));*

*(e) maent yn perthyn i'w gilydd.*

*(2) Ar gyfer dibenion is-adran (1)(f) mae gan rywun berthynas rieiniol mewn perthynas â phlentyn —*

*(a) os yw'r unigolyn yn rhiant i blentyn, neu*

*(b) os oes gan yr unigolyn gyfrifoldeb rhieiniol dros y plentyn.*

*(1) Yn yr adran hon —*

*ystyr "plentyn" yw rhywun sy'n iau na 18 oed;*

*mae adran 73 Deddf Partneriaeth Sifil 2004 yn rhoi ystyr "cytundeb partneriaeth sifil";*

*mae "cyfrifoldeb rhieiniol" yn golygu'r un fath ag y mae o dan Ddeddf Plant 1989;*

*mae adran 63(1) Deddf Cyfraith Teulu 1996 yn rhoi ystyr "perthynas". (gweler isod)*

*Ystyr "perthynas" yw*

*(a) Tad, mam, llystad, llysfam, mab, merch, llysfab, llysferch, mam-gu, tad-cu, ŵyr neu wyres yr unigolyn hwnnw NEU ŵr, gwraig, cyn ŵr, cyn wraig, partner sifil neu gyn bartner sifil yr unigolyn hwnnw;*

*(b) Brawd, chwaer, ewythr, modryb, nith, nai, cefnder neu gyfnither (gwaedoliaeth lawn neu hanner gwaedoliaeth neu drwy briodas neu bartneriaeth sifil) yr unigolyn hwnnw NEU ŵr, gwraig, cyn ŵr, cyn wraig, partner sifil neu gyn bartner sifil yr unigolyn hwnnw.*

*Mewn perthynas ag unigolyn sy'n cydfyw, neu sydd wedi cydfyw, â rhywun arall, mae'n cynnwys unrhyw un a fyddai'n syrthio o fewn paragraff (a) neu (b) pe bai'r partïon yn briod â'i gilydd neu'n bartneriaid sifil.*

Diffiniad Ymddygiad Rheolaethol a Gorfodol (a.77 Deddf Troseddau Difrifol 2015):

- Ymddygiad Rheolaethol yw: *Amrediad o weithredoedd a luniwyd ar gyfer gwneud rhywun yn israddol a/neu'n ddibynnol drwy ei ynysu wrth ffynonellau cefnogaeth, ymelwa o'i adnoddau a'i alluoedd er budd personol, ei amddifadu rhag yr hyn sydd angen ar gyfer annibyniaeth, gwrthwynebu a dianc, gan reoleiddio ei ymddygiad pob dydd; ac*

- Ymddygiad Gorfodol yw: *Gweithred neu batrwm o ymosodiadau, bygythiadau, sarhau a dychrynu, neu fathau eraill o gam-drin, a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefydd.*

a. 3 – Plant fel dioddefwyr Cam-drin Domestig

Bydd hyn yn cael ei lanlwytho i'r Polisi hwn ym mis Ionawr 2022, yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Y sail gyfreithiol ar gyfer arfer y pwerau a'r dyletswyddau a amlinellir yn y polisi hwn yw:

- Deddf Cam-drin Domestig 2021
- Cyfraith Gwlad
- Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861
- Deddf Troseddau Rhywiol 1956
- Deddf Difrod Troseddol 1971
- Deddf Mechnïaeth 1976
- Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
- Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988
- Deddf Plant 1989
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994
- Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996
- Deddf Cyfraith Teulu 1996
- Deddf Diogelwch Rhag Aflonyddu 1997
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001
- Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004
- Deddf Troseddau Difrifol 2015

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Rhan 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchodedig** sy'n gymwys i'w diogelu dan y Ddeddf, sef: Oed; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhywedd; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen i:

- ddileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- hybu perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil, ac yn yr achos hwnnw dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu camwahaniaethu sy'n berthnasol.

Er mwyn cynnal **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** rhaid mynd ati'n systematig i asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisi ar bobl o safbwynt yr holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed ar gyfer asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael yma.

## CWBLHAWYD ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Y Ditectif Arolygydd [redacted] |
| **Adran:** | Y Ganolfan Fregusrwydd |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 10/11/2021 |

**DEDDF HAWLIAU DYNOL**

**TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIAETH**

Cafodd y polisi hwn ei ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol a'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol, ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 20.01.2021 |

# 4. Dewisiadau a Chynlluniau Wrth Gefn

Perchennog y Polisi: Bydd y polisi'n eiddo i'r Pennaeth Gwarchod Pobl Fregus, a bydd yn cael ei fonitro gan y Ganolfan Fregusrwydd yn rheolaidd ar gyfer:

- Ei effeithiolrwydd
- Unrhyw newidiadau i reolau'r Swyddfa Gartref a chanllawiau Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu
- Newidiadau i bolisïau
- Unrhyw eitemau aneffeithlon a nodwyd mewn perthynas â gweithredu

Y Broses Gymeradwyo: Bydd penderfyniadau cymeradwyo mewn perthynas â gweithredu'r polisi hwn yn cael eu gwneud gan y Pennaeth Gwarchod Pobl Fregus a'r Grŵp Bregusrwydd Strategol.

Mae polisi'r heddlu'n adlewyrchu'r Arferion Proffesiynol Awdurdodedig cenedlaethol ar gam-drin domestig gan y Coleg Plismona, a bydd canllawiau gweithredol yn cael eu cadw ar safle mewnrwyd Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r egwyddorion Cod Moeseg canlynol yn berthnasol:

- Atebolrwydd – Byddwn yn atebol am y penderfyniadau, camau a'r hepgoriadau a wneir mewn perthynas â gweithredu'r polisi hwn.

- Tegwch – Bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu, ni waeth am hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu ryw.
- Gonestrwydd – Byddwn yn gweithredu cynnwys y polisi hwn â gonestrwydd er mwyn cynnal ffydd y gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu.
- Unplygrwydd – Byddwn yn gweithredu'r polisi hwn gan sicrhau ein bod ni'n anelu i wneud ein gorau glas dros ddioddefwyr Stelcio ac Aflonyddu.
- Gwrthrychedd – Bydd gweithredu'r polisi hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a barn broffesiynol orau.
- Didwylledd – Byddwn yn agored a thryloyw yn ein gweithredoedd a'n penderfyniadau.
- Parch – Byddwn yn trin pob aelod o'r gymuned â pharch.
- Anhunanoldeb – Byddwn yn gweithredu'n anhunanol ac er budd y cyhoedd.

**TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO**

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Cod Moeseg ac wedi'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio a'r Cod hwn a'r egwyddorion sy'n ei danategu.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Y Ditectif Arolygydd [redacted] |
| **Adran:** | Y Ganolfan Fregusrwydd |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 10/11/2021 |

# 5. Gweithredu ac adolygu

Bydd swyddogion rheng flaen yn ymateb i ddigwyddiadau cam-drin domestig yn gyflym. Byddant yn adnabod y dioddefydd a'r troseddwr, gan ddefnyddio'r asesiad risg DASH er mwyn helpu i adnabod lefel y perygl y mae'r dioddefydd yn wynebu. Bydd hyn yn nodi pa un ai a oes trosedd wedi'i chyflawni, gan hefyd ystyried unrhyw 'droseddau cudd', casglu tystiolaeth er mwyn cefnogi cosbau troseddol a chadw'r dioddefydd ac unrhyw blant yn ddiogel.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn deall bod dynameg cam-drin domestig yn arwain at ddioddefwyr yn ei chael hi'n anodd cefnogi camau gweithredu'r heddlu'n weithredol. Ein cyfrifoldeb ni yw casglu tystiolaeth er mwyn adeiladu achos ar gyfer y dioddefwyr hyn a cheisio cosbau troseddol yn erbyn y troseddwyr. Mae goruchwyliaeth effeithiol a hyfforddiant ar gyfer swyddogion rheng flaen yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys a hyderus i gyflawni'r dasg o gasglu tystiolaeth yn broffesiynol a chyson, hyd yn oed os nad oes cwyn.

Os oes cyfiawnhad dros arést ond nid yw'n cael ei wneud, disgwylir i swyddogion gofnodi'r rheswm am hyn.

Nid yw'r heddlu'n defnyddio cyfiawnder adferol mewn achosion cam-drin domestig rhwng partneriaid agos gan fod yr ymagwedd hon yn arwain at berygl annerbyniol.

Bydd ymchwiliadau cam-drin domestig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Bydd pob galwad STORM sy'n ymwneud â cham-drin domestig yn cael ei hadolygu mewn "amser byw" gan swyddogion ar y Ddesg Fregusrwydd er mwyn sicrhau bod troseddau'n cael eu nodi a'u hymchwilio yn y lle cyntaf.

Bydd yr Uned Asesu Risg Eilaidd yn adolygu pob adroddiad DASH er mwyn sicrhau bod pob plentyn wedi'i adnabod yn gywir ac er mwyn asesu'r lefel perygl. Bydd pob achos perygl UWCH yn cael ei gyfeirio at MARAC. Os oes 3 digwyddiad cam-drin domestig wedi'i gofnodi o fewn y 12 mis diwethaf (beth bynnag yw'r perygl), bydd hyn yn cael ei nodi fel 'achos dwysáu' ac yn cael ei gyfeirio i'r broses MARAC. Bydd unrhyw achos sydd wedi'i drafod mewn cyfarfod MARAC neu Drafodaeth Ddyddiol yn ystod y 12 mis diwethaf yn cael ei nodi'n 'achos mynych' ac yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r broses MARAC. Gellir defnyddio barn broffesiynol ar gyfer cyfeirio at MARAC hefyd.

Bydd pob neges STORM sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn cael ei hadolygu er mwyn nodi unrhyw droseddau coll neu guddiedig.

Bydd gwiriadau ar safonau ymchwilio'n cael eu cynnal gan ringylliaid ar ddyletswydd ac arolygwyr URS, a bydd hyn yn destun trafod mewn cyfarfodydd Perfformiad URS misol.

Bydd goruchwyliaeth strategol a gweithredol yn cael ei chynnal gan y Ganolfan Fregusrwydd a'i hadrodd yn chwarterol i'r Bwrdd Bregusrwydd Strategol er mwyn mynd i'r afael â meysydd llwyddiant neu bryder.

Bydd cwynion a wneir gan aelodau o’r cyhoedd i’r Adran Safonau Proffesiynol mewn perthynas â Cham-drin Domestig ar gyfer gorfodi’n cael eu hasesu yn erbyn y polisi Cam-drin Domestig a chanllawiau gweithdrefnol.

## Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Yn unol â Rhan 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae’n ofynnol i’r Heddlu gyhoeddi ei holl bolisïau ar wefan yr Heddlu. Polisïau sy’n dangos pam yr ydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau sy’n dangos sut yr ydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o’r gweithdrefnau fesul achos er mwyn diogelu ystyriaethau’n ymwneud â gorfodi’r gyfraith ac iechyd a diogelwch. Os cynhyrchir dogfen sy’n cyfuno polisi a gweithdrefnau, mae’n ofynnol o dan y gyfraith i’r Heddlu gyhoeddi’r polisi ac asesu’r rhan sy’n ymwneud â’r gweithdrefnau i sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth sensitif ei chyhoeddi. Yn gyffredinol, fel sefyllfa ddiofyn, cynhyrchir polisi a dogfen weithdrefn ar wahân.

Mae’n ofynnol felly i adolygu’r ddogfen hon er mwyn cadarnhau ei bod yn addas i’w chyhoeddi. Noder isod p’un ai yw’r ddogfen yn addas i’w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y gallai datgelu fod yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai’r cyhoeddi’n ei achosi gan amlygu’r rhannau perthnasol yn y ddogfen. Os tybir y gallai datgelu fod yn niweidiol dylid anfon y ddogfen i’r Uned Rhyddid Gwybodaeth i’w hadolygu.

## Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi

| Addas i’w chyhoeddi | Ydyw/Nac ydyw | Dyddiad | Llofnod |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i’w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | Ydyw | 10/11/2021 | [redacted] |
| Dogfen yn addas i’w chyhoeddi’n rhannol. Rwyf wedi amlygu’r rhannau y credaf nad ydynt yn addas i’w datgelu ac wedi disgrifio isod y niwed y byddai cyhoeddi yn ei achosi. | | | |

| **Niwed – mewn cyhoeddi** | |
|---|---|

**Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth – i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu**
(Dim ond os yw'r awdur yn credu bod niwed mewn cyhoeddi)

| **Addas i'w chyhoeddi** | **Ydyw/Nac ydyw** | **Dyddiad** | **Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth** |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | | | |
| Dogfen yn addas i'w cyhoeddi yn rhannol a gwnaed golygiadau perthnasol. Crëwyd fersiwn sy'n addas ar gyfer y cyhoedd. | | | |
| Ar ôl cwblhau'r adolygiad dylai'r penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen i awdur y polisi, ac ar ôl ei chymeradwyo a'i llofnodi, dylid ei chyhoeddi o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylai unrhyw newidiadau pellach i'r ddogfen gael eu dwyn i sylw'r Uned Rhyddid Gwybodaeth, fel y bo'n addas. | | | |

## Rheoli Fersiynau Llawn

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rhesymwaith |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 13/06/2011 | [redacted] | Polisi Cam-drin Domestig newydd |
| 2.0 | 30/10/2013 | | Canllawiau newydd ar gyfer Rhybuddion Oedolyn Syml, Templed Polisi Newydd yr Heddlu. |
| 3.0 | 18/06/2014 | | Diweddaru'r Polisi Cam-drin Domestig |
| 4.0 | 22/09/2014 | | Darparu ar gyfer y rôl Cydlynydd MARAC |
| 5.0 | 03/11/2014 | | Diweddariad i Ddeddfwriaeth Priodasau Dan Orfod |
| 6.0 | 16/03/2015 | | Cyfeiriad at yr Adran Trwyddedu Arfau Saethu |
| 7.0 | 16/03/2016 | | Diweddaru'r Polisi Cam-drin Domestig |
| 8.0 | 09/10/2017 | | Diweddaru'r Polisi Cam-drin Domestig |
| 9.0 | 20/01/2021 | | Diweddaru'r Polisi Cam-drin Domestig; templed polisi newydd |
| 10.0 | 10/11/2021 | | Diweddaru'r diffiniad o gam-drin domestig a gweithredu Deddf Cam-drin Domestig 2021 |
| | | | |
| | | | |